**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 2il Tachwedd 2016 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd P. Prendergast (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs. J. Hughes, A. R. James, Mrs. P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs. W. Mullen-James, Miss S. Roberts, A. J. Rutherford, Miss R. Siddall, D. Simmons, W. N. Tasker, T. Thomas a'r Parch. S. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 56. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), S. H. Ratcliffe (ymrwymiad arall), Miss C. L. Williams (yn sâl).

Ymhellach i gofnod rhif 1 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gohebiaeth gan y Cynghorydd Armstrong yn ei hysbysu o'i gyflwr presennol ac yn gofyn bod y Cyngor yn ystyried caniatáu cyfnod pellach o oddefeb iddo.

Hysbysodd Cynghorydd ar gyflwr iechyd y Cynghorydd Moylan ar hyn o bryd.

***PENDERFYNWYD*** *caniatáu cyfnod goddefeb am absenoldeb i'r Cynghorydd Armstrong hyd at etholiadau mis Mai 2017.*

## 57. LLONGYFARCHIADAU

Ar ran y Pwyllgor, llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd A. R. James ar ei ethol yn ddiweddar i Gyngor Sir Ddinbych.

## 58. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – AWST 2016

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Awst 2016.

| | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 097 | Cyngor Sir Ddinbych | 704.03 | Ynysu cyflenwad pŵer Llochesi Bws |
| 098 | Nation Recruit | 178.99 | Staff dros dro, wythnos dod i ben 24ain Gorffennaf 2016 |
| 099 | Nation Recruit | 178.99 | Staff dros dro, wythnos dod i ben 31ain Gorffennaf 2016 |
| 100 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 6,650.00 | Taliadau Gwasanaeth Ffordd Wellington Chwarter 2 2016/17 |
| 101 | HSBC | 18.26 | Taliadau Banc 17eg Meh 2016 i 16 Gorffennaf 2016 |
| 102 | Sage & Co | 30.00 | Ffioedd Cyflogres misol Awst 2016 |
| 103 | Cyngor Sir Ddinbych | 150.00 | Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol Gorffennaf 2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 104 | Gunsmoke Communications | 1,280.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Gorffennaf 2016 |
| 105 | Gunsmoke Communications | 480.00 | Diweddaru'r wefan Gorffennaf 2016 |
| 106 | Canda Copying | 160.09 | Taliadau copïo lliw |
| 107 | Canda Copying | 350.51 | Rhentu a thaliadau copïo du a gwyn |
| 108 | M J Graphics | 144.00 | Baner fawr |
| 109 | M J Graphics | 192.00 | Fflag blu a stand |
| 110 | BJS Solutions | 1,554.00 | Contract Cymorth Blynyddol |
| 111 | Sioned Graham-Cameron | 223.41 | Gwasanaeth Cyfieithu |
| 112 | Nation Recruit | 178.99 | Staff dros dro wythnos dod i ben 7fed Awst 2016 |
| 113 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,904.33 | Cyflogau Awst 2016 |
| 114 | HMRC | 2,533.30 | Didyniadau PAYE Gorffennaf 2016 |
| 115 | Cyngor Sir y Fflint | 3,635.64 | Didyniadau Pensiwn Gorffennaf 2016 + cyllid diffyg |
| 085 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,833.33 | Gweithiwr Apêl Awst 2016 |
| 014 | Cyngor Sir Ddinbych | 510.00 | Y Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17 Rhandaliad 5 o 10 |
| | | | |
| | **Cyfanswm taliadau** | 27,889.87 | |
| | | | |
| | HSBC | 17.27 | Llog ar adneuon Marchnad Arian 7 Diwrnod |
| | Santander | 35.03 | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod |
| | Cyngor Sir Ddinbych | 164,400.00 | Praesept 2016/17 – Taliad 2 o 3 |
| | | | |
| | **Cyfanswm Derbynebau** | 164,452.30 | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

59. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MEDI 2016**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Medi 2016.

| | **Enw'r Cyflenwr** | **Swm** | **Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau** |
|---|---|---|---|
| 056 | Y Cyngh S Roberts (Maer) | 997.50 | Lwfans y Maer 2016/17 2 o 3 |
| 057 | Y Cyngh A James (Dirprwy Faer) | 332.50 | Lwfans y Maer 2016/17 2 o 3 |
| 116 | WPS Insurance | 11.53 | Cynnydd mewn yswiriant ar gyfer deunydd hyrwyddo newydd |
| 117 | Sustrans | 600.00 | Cyfraniad tuag at Daflen Cerdded a Beicio |
| 118 | Sage & Co | 30.00 | Ffioedd cyflogres misol Medi 2016 |
| 119 | BT | 113.04 | Rhentu llinell BT |
| 120 | HSBC | 13.34 | Taliadau Banc 17eg Gorffennaf i 16eg Awst 2016 |
| 121 | NWN Media | 120.00 | Neges Cefnogi Theatr y Pafiliwn y Rhyl |
| 122 | NWN Media | 42.00 | Meges Cefnogi Carnifal y Rhyl |
| 123 | Gunsmoke Communications | 1,280.00 | Ffïoedd Rheoli Digwyddiadau Awst 2016 |
| 124 | Amazon | 179.99 | Gazebo ar gyfer Digwyddadau / Cysylltiadau Cyhoeddus |
| 014 | Cyngor Sir Ddinbych | 510.00 | Y Dreth Gyngor 2016/17 Rhandaliad 6 o 10 |
| 085 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,833.33 | Gweithiwr Apêl Medi 2016 |
| 125 | HMRC | 2,738.95 | Didyniadau PAYE Awst 2016 |
| 126 | Cyngor Sir y Fflint | 3,713.61 | Didyniadau Pensiwn Awst 2016 + cyllid diffyg |
| 127 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,668.18 | Cyflogau Medi 2016 |
| 128 | BT | 127.69 | Rhentu llinell Medi-Tachwedd 2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 129 | Gwasg Helygain | 341.05 | Taflenni Penwythnos Gwyllt |
| 130 | Y Lleng Brydeinig | 165.00 | 3 torch ddinesig |
| 131 | Cyngor Sir Ddinbych | 49,834.81 | Plannu, Cynnal a Chadw a Symud Ymaith 2016/17 |
| 132 | Cyngor Sir Ddinbych | 8,359.92 | Cynnal a Chadw Gerddi – Gerddi Coffa 16/17 |
| 133 | Ynys Mon Angling | 300.00 | Gweithgaredd Hyfforddiant Pysgota ar gyfer Penwythnos Gwyllt y Rhyl |
| 134 | Blachere | 251.40 | Offer cydio colofnau ar gyfer Goleuadau |
| 135 | Geoff's Tackle and Bait | 217.50 | Tacl Pysgota ar gyfer Penwythnos Gwyllt y Rhyl |
| 136 | SLCC | 153.60 | 3 Dirprwy Cynhadledd SLCC Cymru Medi 2016 |
| 137 | Fantazia Imports Limited | 6,240.00 | Arddangosfa 5ed Tachwedd 2016 |
| 138 | Sioned Graham-Cameron | 301.77 | Costau Cyfieithu |
| | | | |
| | | | |
| | **Cyfanswm Taliadau** | 85,476.71 | |
| | | | |
| | HSBC | 16.11 | Llog ar adneuon Marchnad Arian 7 Diwrnod |
| | HSBC | 7.76 | Llog ar Gyfrif Money Maker |
| | Santander | 35.03 | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod |
| | Lloyds Bank | 122.88 | Llog ar Adneuon 3 mis |
| | | | |
| | **Cyfanswm Derbynebau** | 181.78 | |
| | | | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 60. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30AIN MEDI 2016 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2016/17

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid ar y cyd (copi wedi ei ddosbarthu gyda'r rhaglen) yn ymwneud â monitro gwariant mewn perthynas ag amcangyfrifon y gyllideb ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2016 – 30ain Medi 2016.

Roedd yr adroddiad yn nodi amrywiadau rhwng y gwariant a ddisgwylid a'r gwir wariant yn y cyfnod ynghyd ag amcanestyniadau ar gyfer diwedd y flwyddyn yn awgrymu gwariant diffyg o £6,107.

Roedd yr adroddiad hefyd yn adrodd yn ffurfiol ar weithrediad cost 1% dyfarniad cyflog y darparwyd ar ei gyfer yn narpariaeth y gyllideb a'i weithredu o'r 1af Ebrill 2016.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad.*

## 61. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI (1AF GORFFENNAF-30AIN MEDI 2016)

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar fuddsoddiadau'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 62. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH: CIOSGAU BT

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn ymgynghoriad gan BT trwy law Cyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn ymwneud â'r cynnig i gael gwared â thri ciosg ffôn o'r Rhyl - Rhuddlan Road, Cyffordd Elwy Drive/Grange Road, a Rhydwen Drive. Y nifer o alwadau a wnaed o'r tri blwch ffôn oedd 1, 262 a 153 yn eu tro.

***PENDERFYNWYD*** *cyfarwyddo Clerc y Dref i:*

*(a) Beidio â gwrthwynebu cael gwared â'r ciosg yn Rhuddlan Road, y Rhyl a*

(b) *Gwrthwynebu cael gwared â'r ciosgau yng Nghyffordd Elwy Drive/Grange Road a hefyd Rhydwen Drive.*

**63. EITEMAU GWYBODAETH I'R AELODAU**

Dywedodd Clerc y Dref iddo gael ei hysbysu gan Heddlu Gogledd Cymru bod pedwar o bobl bellach wedi cael eu cyhuddo o lofruddio gŵr lleol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

64. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**65. CYFARFODYDD Y CYNGOR TREF**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at lythyr cyfrinachol yr oedd wedi ei ddosbarthu i'r holl Gynghorwyr yn ymwneud ag amrywiol brotocolau Cyngor Tref a drafodwyd gan yr Aelodau.

Er bod rhai Aelodau yn cytuno â rhai elfennau o'r llythyr, teimlent bod meysydd eraill yn amhriodol ac na ddylai fod wedi ei ddosbarthu.

66. **EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Mewn perthynas â chofnod rhif 79 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**67. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: ……………………..……..

Dyddiad: …………………………